



Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

CYLCH GORCHWYL TECHNOLEG IECHYD CYMRU (HTW)¹

Grŵp Cyfeirio Drws Ffrynt HTW (FDSG)

Dyddiad Dod i Rym	27 Tachwedd 2018
Cymeradwywyd Gan	Grŵp Cyfeirio Drws Ffrynt
Dyddiad Adolygu	27 Tachwedd 2019
Awdur Arweiniol	Cyfarwyddwr, Technoleg Iechyd Cymru
Fersiwn	v1.1

¹ Mae hon yn ddogfen fyw ac felly gall newid. Caiff ei hadolygu a'i diweddarau yn flynyddol, neu'n amlach os bydd angen.

1. DIBEN A CHYLCH GWAITH

Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru i gefnogi 'dull strategol a chenedlaethol ar gyfer canfod, arfarnu a mabwysiadau technolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau mewn lleoliadau iechyd a gofal'.

Is-grŵp o HTW yw'r Grŵp Cyfeirio Drws Ffrynt (FDSG) sy'n dwyn ynghyd bartneriaid allweddol yn GIG Cymru a Llywodraeth Cymru i sefydlu llwybr llyfn i ddatblygwyr technoleg iechyd gael cyngor er mwyn llywio datblygiad, mabwysiadu ac optimeiddiad defnydd technolegau iechyd.

2. AWDURDOD

Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru (HTW) drwy argymhelliad Gweinidogaethol^{2,3} yn dilyn ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yn GIG Cymru gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Noddir HTW gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ond mae'n annibynnol ar y ddau sefydliad o ran ei brosesau.

Yn benodol, ariennir HTW drwy ddyfarniad grant y Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg (ETTF) (ETTF X.481.XTT) sy'n amlinellu'r amodau ar gyfer cyllido, dibenion a thargedau sy'n gysylltiedig â chyllido.

Awdurdodir y Grŵp Cyfeirio Drws Ffrynt gan Grŵp Llywio HTW i adolygu ac ystyried gweithgarwch o fewn ei Gylch Gorchwyl. Fe'i awdurdodir i gael y wybodaeth sydd ei hangen arno gan randdeiliaid er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Adroddir am ei waith wrth Grŵp Llywio HTW.

Bydd y Grŵp Cyfeirio Drws Ffrynt hwn yn cyflawni'r swyddogaethau a amlinellir yn adran 5, a ddirprwyir iddo gan Grŵp Llywio HTW.

3. AELODAETH

Mae aelodaeth Grŵp Cyfeirio Drws Ffrynt HTW fel a ganlyn:-

- Cyfarwyddwr, Technoleg Iechyd Cymru (HTW)
- Uwch Ymchwilydd, Technoleg Iechyd Cymru (HTW)
- Cyfarwyddwr, Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol (SMTL)
- Ymchwilydd, Bwrdd Caffael Seiliedig ar Dystiolaeth (EBPB)
- Pennaeth Ymgysylltu ag Iechyd (Hyb Gwyddorau Bywyd)
- Ffynonellau Strategol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)
- Pennaeth Rhaglen Technoleg Gofal Iechyd, Llywodraeth Cymru (LIC)

Sylwer y bydd Cadeiryddiaeth y grŵp hwn yn cylchdroi ymhlith yr aelodau.

Disgwylir i bob aelod gyfranogi'n fisol er mwyn ystyried pynciau newydd a atgyfeirir sydd angen eu cyfeirio.

² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru. Rhagfyr 2014.

³ Ymateb i Argymhellion gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymchwiliad i Fynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru. Chwefror 2015.

4. CYFARFODYDD

Y nod yw cynnal busnes FDSG ar ffurf electronig, drwy gyfrwng e-bost, pan fo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, caiff calendr misol o gyfarfodydd eu rhoi yn y dyddiadur er mwyn hwyluso telegynadleda neu gyfarfod wyneb yn wyneb, pe bai angen hynny. Mae'n ofynnol i aelodau enwebu aelod dirprwyol i'w cynrychioli ym musnes FDSG pe na baent yn gallu cyfranogi.

Bydd yr FDSG yn anelu i wneud penderfyniadau drwy gonsensws. Os nad yw'n bosibl dod i gonsensws cyflawnir cworwm ar gyfer penderyfniad grŵp os oes cytundeb gan o leiaf 50% o'r aelodau.

Darperir ysgrifenyddiaeth at gyfer FDSG gan Technoleg Iechyd Cymru.

5. CWMPAS A DYLETSWYDDAU ALLWEDDOL

- Datblygu a defnyddio proses i gyfeirio ymholiadau am ddatblygiad, arfarniad neu ddefnydd technoleg iechyd sydd o ddiddordeb i GIG Cymru i'r grŵp neu'r sefydliad perthnasol.
- Datblygu a defnyddio prosesau ymhlith partneriaid i frysbennu ymholiadau, sicrhau cadernid a pha mor briodol yw cyngor, osgoi dyblygu ac annog arloesedd a gwelliant mewn ansawdd.
- Cytuno ar y broses FDSG GIG Cymru a amlinellir yn Atodiad 1 a chynnal rhaglen beilot ohoni.

6. FFYRDD O WEITHIO

Dosbarthir ymholiadau neu atgyfeiriadau technoleg gan y partner sy'n eu derbyn at bob aelod FDSG, wrth iddynt gael eu derbyn, er mwyn hwyluso ystyriaeth ac ymateb amserol (o fewn mis). Caiff holl bapurau eraill cyfarfodydd FDSG eu dosbarthu un wythnos ymlaen llaw.

Paratwir nodyn gweithredu electronig sy'n cofnodi penderfyniadau FDSG parthed cyfeirio'r pynciau a dderbynnir ar gyfer eu hystyried. Bydd y nodyn gweithredu yn cael ei rannu gydag aelodau FDSG a rhanddeiliaid allweddol eraill yn ôl y galw.

Bydd Ysgrifenyddiaeth HTW yn rhannu nodiadau gweithredu FDSG gyda Grŵp Llywio HTW.

7. ADOLYGIAD

Bydd y Grŵp Cyfeirio Drws Ffrynt yn cynnal rhaglen beilot ar ei brosesau am gyfnod o 6 mis, gan adrodd yn ôl wrth Grŵp Llywio HTW ar lwyddiant ei weithrediad erbyn tymor y Gwanwyn 2019.

Atodiad 1. Proses cyfeirio Grŵp Cyfeirio Drws Ffrynt (FDSG) GIG Cymru

NHS Wales Front Door Group (FDG) Signposting Proposal (Version: 2018-08-23)

HTW Front Door Function

- The Front Door is a phrase to describe the signposting activities of HTW;
- Signposts enquiries from Health Technology Developers to appropriate routes;
- All non-medicines technology in scope, including systems & therapies;
- Provides advice on Importance to NHS, next steps and factors to consider.

Rules of Engagement

- Audit trail for governance purposes;
- Demonstrate due diligence;
- Interested stakeholders informed of decisions;
- No evaluation of evidence;
- No value judgements on acceptability of the technology.

